**Pwyllgor yr Economi,
Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and
Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Vikki Howells AS
Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch

3 Ebrill 2025

Annwyl Vikki,

**Ymchwiliad i Lwybrau Prentisiaethau**

Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor wrthi'n cynnal ymchwiliad i lwybrau Prentisiaethau, a bod y Pwyllgor yn ystyried yn benodol:

- Llwybrau rhwng gwahanol lefelau o brentisiaeth: Pa heriau sy'n wynebu prentisiaid wrth geisio dilyn llwybrau gyrfa drwy wahanol lefelau o brentisiaeth, er enghraifft, o brentisiaeth iau i radd-brentisiaeth. A yw hyn yn anoddach mewn rhai gyrfaoedd/sectorau nag eraill.
- Yr economi: I ba raddau y mae llwybrau prentisiaeth yn cefnogi anghenion busnesau Cymru ac yn cyfrannu at lenwi bylchau o ran sgiliau yn economi Cymru.
- Cyflogwyr: Sut y gellir ymgysylltu cyflogwyr â'r gwaith o hwyluso'r llwybrau hyn a denu prentisiaid. A oes angen cymorth penodol i helpu microfusnesau, a busnesau bach a chanolig, i ymgysylltu â'r rhaglen brentisiaeth.
- Gwybodaeth am brentisiaethau: Sut y gellir rhannu arfer dda rhwng gwasanaethau gyrfaoedd, ysgolion, colegau a chyflogwyr o ran hyrwyddo prentisiaethau a darparu profiad gwaith ystyrlon.
- Cymorth a mynediad cyfartal ar gyfer dysgwyr: I ba raddau y mae llwybrau prentisiaeth yn agored i holl bobl ifanc Cymru a pha rwystrau sy'n wynebu grwpiau penodol o ran demograffig neu ardal ddaearyddol.

- Rôl Llywodraeth Cymru: Sut mae polisïau’n cefnogi llwybrau prentisiaeth ac a oes unrhyw rwystrau sy’n rhaid ymdrin â nhw yn hynny o beth. Pa rôl sydd gan Lywodraeth Cymru, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a rhanddeiliaid eraill o ran nodi a chyfleu anghenion economaidd ac anghenion o ran sgiliau i helpu i lywio fframweithiau prentisiaeth a’r ffordd y caiff cymwysterau eu cynnig.

Fel rhan o'r ymchwiliad hwn, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, ac mewn gohebiaeth ysgrifenedig yn dilyn y sesiwn hon gofynnodd, ymhlith ymholiadau eraill, am y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed wrth ddatblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol. Mewn llythyr dyddiedig 13 Mawrth 2025, cadarnhaodd y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol mai mater i chi yw hwn, a gofynnodd i chi ysgrifennu i ddiweddaru'r Pwyllgor ar hyn.

Felly, hoffai'r Pwyllgor gymryd y cyfle i groesawu'r diweddariad hwn, a gofyn i chi anfon eich ymateb erbyn 24 Ebrill 2025, er mwyn i'r Pwyllgor ei ystyried yn ei gyfarfod nesaf. Byddai gan Aelodau ddiddordeb hefyd mewn nodi unrhyw farn sydd gennych ar unrhyw faes arall o'r cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad, fel y nodir uchod, fel y gwelwch yn dda.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Cofion cynnes,

Andrew RT Davies

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg